# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Mawrth, 2 Tachwedd 2021

Lisa Evans

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus, o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Llun, 8 Tachwedd 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
**Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3. Cadw elfennau o'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Dros Dro mewn trefi yng Ngheredigion (Tudalennau 3 - 20)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Craffu** |
| **DYDDIAD:** | **8 Tachwedd 2021** |
| **LLEOLIAD:** | Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Cheinewydd |
| **TEITL:** | Cadw elfennau o'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Dros Dro mewn trefi yng Ngheredigion |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | Cyflwyno cynigion ar gyfer Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol fel rhan o'r broses o wneud elfennau dethol sy'n ymwneud â pharcio a llif y traffig, a roddwyd ar waith dros dro mewn ymateb i'r pandemig Covid-19 yn nodweddion parhaol |
| **Y RHESWM PAM MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar 1 Hydref 2021, gofynnodd aelodau am adroddiad pellach ar y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol arfaethedig, yn dilyn cwblhau trafodaethau pellach gydag Aelodau Lleol, cyn i bapur ar y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol gael ei gyflwyno i'r Cabinet er ystyriaeth. |

### CEFNDIR:

Cyflwynwyd nifer o fesurau rheoli traffig drwy gyfrwng Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Dros Dro (TRRO) yn y trefi a enwir uchod, er mwyn hwyluso ymbellhau cymdeithasol yn ystod cyfyngiadau'r cyfnodau clo yn sgil y pandemig Covid-19. Mae Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Dros Dro yn para uchafswm o 18 mis, ac mae'r rhai hynny sydd mewn grym yn dechrau dod i ben o fis Hydref 2022 ymlaen. Mae'n bosibl iddynt gael eu hymestyn gyda chaniatâd priodol ond dim ond os yw'r rhesymeg sydd wrth wraidd eu creu yn dal yn berthnasol ac yn ddilys. Nid yw'r cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â'r amodau yn ystod y cyfnodau clo cyntaf mewn grym ar hyn o bryd.

### Y SEFYLLFA BRESENNOL

Gan fod y gofynion o ran ymbellhau cymdeithasol wedi llacio yng Nghymru, nid oes bellach angen parhau â rhai neu'r cyfan o'r mesurau a gyflwynwyd. Fodd bynnag, cydnabyddir bod rhai o'r elfennau wedi bod o fudd ehangach i gymdeithas a bod achos dros ddechrau'r broses gyfreithiol i ystyried gwneud y rhain yn fwy parhaol.

Y ffordd orau i ymdrin â'r broses hon, yn ôl y cyngor a roddir, yw gwneud dau Orchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol – un er mwyn ymdrin â'r cyfyngiadau parcio a fydd yn diwygio'r Gorchymyn Parcio Traffig sy'n bodoli ar lefel sirol ac un i ymdrin â'r rheoliadau 'symud', megis llif traffig unffordd, gwaharddiadau troi i'r dde/chwith, dim mynediad ayb.)

O gymharu proses y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol gyda'r broses fwy traddodiadol

o wneud Gorchymyn parhaol, nid oes angen cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 3 wythnos. Yn hytrach, ar ôl cyhoeddi Hysbysiad o Fwriad yn y wasg leol, mae gan aelodau'r cyhoedd gyfnod o chwe mis pan allant gyflwyno gwrthwynebiadau ffurfiol i'r broses Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol.

Gall Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol barhau mewn grym am gyfnod o hyd at 18 mis. Ar ddiwedd y cyfnod chwe mis cychwynnol ar gyfer gwrthwynebiadau, gall yr Awdurdod benderfynu dirymu Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol, ei ddiwygio neu ei wneud yn barhaol. Drwy ddefnyddio Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol fel y broses o wneud nodweddion yn barhaol a'u haddasu lle bo angen, caniateir cyfnod hwy, felly, pan ellir monitro eu heffeithiau a gall aelodau'r cyhoedd fynegi unrhyw wrthwynebiadau i gyflwyno Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Parhaol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynigion i gadw/diwygio elfennau ar ffyrdd sirol yn Aberteifi, Ceinewydd, Aberaeron a Aberystwyth, sydd ar hyn o bryd wedi eu cynnwys o fewn y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Dros Dro ond y mae cynnig i'w cynnwys yn y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol, gyda'r bwriad o'u gwneud yn barhaol, yn amodol ar ddeilliannau'r cyfnod o chwe mis ar gyfer gwrthwynebiadau.

Ar hyn o bryd, nid oes cynigion i gyflwyno Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol o ran y mesurau a gyflwynwyd yn y Borth, gan eu bod yn lleol eu natur ac nid ydynt yn destun Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Dros Dro, ac felly nid oes angen eu ffurfioli wedi i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

Bydd trafodaethau'n parhau y tu allan i'r broses Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol, o safbwynt ceisiadau i newid gwelliannau posibl mewn lleoliadau eraill.

Mae'r mesurau arfaethedig i gadw/newid fel a ganlyn:

## Aberteifi

Yn ogystal â'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol a amlinellir uchod, cynghorir cadw'r adrannau o'r droedffordd a ledwyd yn y lleoliadau canlynol. Mae'r rhain wedi eu lleoli yn:


- Y Stryd Fawr (ger Belottis)
- Neuadd y Dref
- Pendre (ger y Siop Sglodion)
- Stryd y Priordy (Crwst)

**Cynigir cynnwys y mesurau parcio canlynol yn y Gorchmynion Rheoliadau Traffig Arbrofol:**

i) Cyflwyno Cilfan Lwytho newydd 12 metr o hyd, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 8am a 5pm am 20 munud a dim dychwelyd o fewn 20 munud ar Y Stryd Fawr gyferbyn â'r safle bws (a fydd yn cael ei adfer) i'r de o Neuadd y Sir. Bydd hon yn lle'r Gilfan Lwytho dros dro a gyflwynwyd yn lleoliad y safle bws. Bydd y Gilfan Lwytho newydd yn lle rhan o'r gilfan aros am amser cyfyngedig a oedd ar ochr arall y ffordd cyn cyflwyno'r parth diogel.

ii) Cyflwyno man parcio newydd i Ddeiliaid Bathodyn Anabl yn unig, rhwng 8am a 6pm, 3 awr a dim dychwelyd o fewn 3 awr wrth ochr y Gilfan lwytho uchod yn i) er mwyn meddiannu gweddill y gilfan lle'r oedd aros cyfyngedig.

iii) Cyflwyno gwaharddiad newydd rhag Aros ar Unrhyw Adeg ar y Stryd Fawr o ben gogleddol y safle bws i'r de o Neuadd y Sir i'r groesffordd â Lôn y Farchnad (ychydig y tu hwnt i siop delicatessen Belotti)




*Ffigwr 1: Cilfan lwytho newydd (i), cilfan estynedig i'r anabl (ii) a Gwaharddiad Rhag Aros ar unrhyw adeg (iii)*


iv) Cadw'r adran a gyflwynwyd dros dro yn yr ardal lle y gwaharddwyd Aros ar unrhyw adeg ar Stryd y Priordy, ger Crwst, lle y gosodwyd darn estynedig newydd.

v) Cadw'r adran a gyflwynwyd dros dro yn lle parcio ar gyfer Deiliaid Bathodyn Anabl yn Unig, rhwng 8am a 6pm, 3 awr a dim dychwelyd am 3 awr ger y Clinig Traed ar ochr arall Stryd y Priordy.




*Ffigwr 2: Gwaharddiad rhag aros ar unrhyw adeg sydd wedi'i gadw (iv) a'r Gilfan Anabl (v)*


vi) Cadw'r gwaharddiad dros dro rhag aros ar unrhyw amser ym Mhendre o Mundos/Caffi Food for Thought i'r gyffordd â Rhodfa'r Felin gerllaw Caffi a Siop Pysgod a Sglodion Pendre.




*Ffigwr 3: Gwahardd rhag Aros ar unrhyw adeg (vi)*

**Cynigir cynnwys y Gwaharddiadau canlynol rhag Symud yn y Gorchmynion Rheoliadau Traffig Arbrofol:**

i) Cadw'r llif traffig unffordd a gyflwynwyd dros dro yn Rhes y Coleg (o'r Stryd Fawr i Res y Frenhines/Mwldan Ganol ger maes parcio Caeglas).
ii) Cyflwyno gwaharddiad newydd rhag troi i'r chwith o'r [maes parcio] ym Mwldan Uchaf i mewn i Res y Coleg
iii) Cyflwyno gwaharddiad rhag troi i'r dde o Fwldan Ganol i mewn i Res y Coleg
iv) Cyflwyno llif traffig unffordd newydd ym Mhwllhai o Ganolfan Hen Bethau Aberteifi (Cardigan Antiques Centre) i'r gyffordd â'r Stryd Fawr (o'r dwyrain i'r gorllewin).
v) Cyflwyno llif traffig unffordd newydd yn Lôn Siawnsri o gyfeiriad Stryd y Santes Fair i'r Stryd Fawr (o'r de i'r gogledd).




*Ffigwr 4: Systemau Unffordd Arfaethedig a Gwaharddiadau Rhag Troi, Aberteifi (i, ii, iii, iv a v)*


## Ceinewydd

**Cynigir cynnwys y mesur parcio canlynol yn y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol:**

i) Cadw’r parcio ar gyfer Deiliaid Bathodyn Anabl yn unig rhwng 9am a 5pm, 3 awr a dim dychwelyd o fewn 3 awr a osodwyd dros dro ar yr ochr sy’n wynebu’r môr o Res Glanmor yn y bae gyferbyn â’r Penwig.

ii) Cyflwyno Gwaharddiad newydd rhag Parcio ar unrhyw adeg ar ochr orllewinol Stryd Ioan ac ar bob ochr i’w chyffordd â Stryd yr Efail i ymuno â’r Gwaharddiadau presennol rhag Parcio ar unrhyw adeg.

iii) Cyflwyno Gwaharddiad newydd rhag parcio ar unrhyw adeg ar Stryd Ioan o ddiwedd y gwaharddiad presennol rhag parcio ar unrhyw adeg ger eiddo o’r enw The Marina i ffin yr eiddo ar ochr y tir o Dŷ Glyn yng Nglan Dolau gyferbyn â’r gyffordd â Maes yr Odyn.




*Ffigwr 5: Cilfan Anabl wedi'i Chadw (i) a Gwaharddiad newydd rhag Aros ar unrhyw Adeg (ii a iii)*

**Cynigir cynnwys y canlynol yn y Gwaharddiad rhag Symud yn y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol:**

i) Cadw'r rhan o'r llif traffig unffordd ar Heol y Dŵr o'r gyffordd â Stryd yr Hen Goleg wrth deithio i'r gogledd-ddwyrain i'r gyffordd â'r Beili.
ii) Cyflwyno gwaharddiad newydd rhag troi i'r dde o Res y Morwyr i mewn i Heol y Dŵr.
iii) Cyflwyno gwaharddiad newydd rhag troi i'r chwith o'r Beili i mewn i Heol y Dŵr.



*Ffigwr 6: Unffordd ar Heol y Dŵr (i) gyda gwaharddiadau ategol ar droi i'r chwith ac i'r dde (ii a iii)*

## Aberaeron

Yn ychwanegol at y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Abrofol a amlinellir isod, cynghorir cadw'r adran a ledwyd o'r droedffordd yn y lleoliadau canlynol. Mae'r rhain wedi'u lleoli ar:


- Heol y Farchnad (ger Tafarn Cadwgan, Celtic, Costcutters)

Argymhellir i Lywodraeth Cymru / Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru bod y rhan o'r droedffordd sydd wedi ei lledu ger Ambassadors ar yr A487 yn cael ei thynnu ymaith a bod y rhan hon yn dychwelyd i fod yn fan lle mae cyfyngu ar aros, a bod y rhan sydd â llinellau melyn dwbl ger y gyffordd â'r A487 a Sgwâr Alban ger y Royal Oak yn cael ei chadw.

**Cynigir cynnwys y mesurau parcio canlynol yn y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol:**


i) Cadw hanner deheuol (tuag at gefnffordd yr A487) y parcio i Ddeiliaid Bathodyn Anabl yn unig, 2 awr a dim dychwelyd am ddwy awr a gyflwynwyd dros dro i'r gilfan ar ochr arall y ffordd i Costcutter ar Heol y Farchnad. Bydd hanner gogleddol y gilfan (tuag at yr harbwr) yn mynd yn ôl i fod yn aros cyfyngedig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 9am a 6pm, 1 awr a dim dychwelyd o fewn yr awr.

ii) Cadw'r rhan lle ceir gwaharddiad rhag aros ar unrhyw adeg gyferbyn y cilfannau uchod – ar gyfer deiliaid bathodyn anabl a lle ceir cyfyngu ar aros (i) y tu allan i Costcutter i gydfynd â'r droedffordd a ledwyd (ac sydd wedi'i chadw)




*Ffigwr 7: Cilfannau Anabl a Gadwyd (i uchod a iv isod) a Gwaharddiad rhag Aros ar Unrhyw Adeg (ii)*

iii) Cadw'r rhan o'r Gwaharddiad Rhag Aros ar Unrhyw Adeg a gyflwynwyd dros dro yng Nghadwgan ar yr ochr sydd ar bwys Pwll Cam o'r gyffordd â Heol y Farchnad / Stryd y Tabernacl hyd at y gyffordd â Lôn Ganol, ac ymestyn hyn i'r gyffordd â Phen Cei ger The Hive, gan gynnwys y fynedfa at lan cei yr harbwr.




*Ffigwr 8: Gwahardd rhag Aros ar Unrhyw Adeg (iii)*

iv) Cadw'r rhan lle ceir parcio i Ddeiliaid Bathodyn Anabl yn unig, 2 awr a dim dychwelyd o fewn 2 awr a gyflwynwyd dros dro ar ochr ddeheuol Stryd Buddug ger Neuadd y Sir.

v) Cyflwyno Cilfan newydd i Gerbydau Nwyddau ar gyfer Llwytho yn unig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 9am a 5pm, 30 munud a dim dychwelyd o fewn awr, 12 metr o hyd ar ochr orllewinol Sgwâr Alban ar ochr orllewinol y ffordd.

vi) Cyflwyno cilfan newydd ar gyfer Deiliaid Bathodyn Anabl yn Unig, 6.6 metr o hyd ar ochr orllewinol Sgwâr Alban ar ochr orllewinol y ffordd.



*Ffigwr 9: Cilfach Lwytho Newydd (v) a Chilfach Anabl (vi)*

**Cynigir cynnwys y Gwaharddiadau rhag Symud canlynol yn y Gorchmynion RheoleiddioTraffig Arbrofol :**

i) Cadw'r llif traffig unffordd a gyflwynwyd dros dro ar ran isaf Ffordd y Gaer o'r gogledd i'r maes parcio talu ac arddangos, hyd at lan y môr, ar hyd glan y môr ac i mewn i Stryd y Tabernacl ac yna Heol y Farchnad.
ii) Cyflwyno gwaharddiad newydd rhag troi i'r chwith o Heol Tudur i Stryd y Tabernacl.
iii) Cyflwyno gwaharddiad newydd rhag troi i'r dde o Lan y Môr i Stryd y Tabernacl.



*Ffigwr 10: System unffordd a gwaharddiadau rhag troi ategol, Aberaeron*

Efallai y bydd gwaharddiadau eraill rhag symud cerbydau yn cael eu cynnwys, bydd y rhain yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfarfod y pwyllgor Craffu.

## Aberystwyth

Yn ychwanegol at y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol a amlinellir isod cynghorir bod y rhannau o'r droedffordd sydd wedi eu lledu yn y lleoliadau canlynol yn cael eu cadw. Mae'r rhain wedi eu lleoli fel a ganlyn:

- Heol y Wig (ger Sports Direct a Cactws)
- Y Ffynnon Haearn (ger Evola)
- Ffordd y Môr (ger Stars a Boots)

**Cynigir cynnwys y mesurau parcio canlynol yn y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol:**

i) Cael gwared ar y parcio ar gyfer Deiliaid Bathodyn Anabl, 2 awr a dim dychwelyd o fewn 2 awr (2-3 lle) ar Stryd y Farchnad ac yn lle hynny rhoi Gwaharddiad rhag Aros ar unrhyw Adeg.

ii) Cadw'r Gwaharddiad rhag Aros ar unrhyw Adeg a gyflwynwyd dros dro ar ochr orllewinol Heol y Wig rhwng y gyffordd â'r Stryd Newydd a Stryd y Brenin. (Roedd hwn wedi ei osod yn lle llinell felen sengl a oedd yn Gwahardd rhag Aros rhwng 9am a 6pm).





*Ffigwr 11: Cilfan Anabl wedi ei diddymu (i), Cilfannau Llwytho wedi eu cadw (x a xi isod), Cilfan Anabl wedi ei chadw (vii isod) a Gwaharddiad rhag Aros ar unrhyw Adeg wedi ei Gadw (ii)*

iii) Cadw'r Gilfan i Gerbydau Nwyddau ar gyfer Llwytho yn unig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, 8am i 6pm, 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr a gyflwynwyd dros dro ar ochr ddwyreiniol y Ffynnon Haearn y tu allan i salon trin gwallt Evola a siop gigydd Rattray.


iv) Cadw'r Gwaharddiad rhag Aros ar Unrhyw Adeg a gyflwynwyd dros dro yn lle cilfan lwytho ac aros cyfyngedig ar ochr orllewinol y Ffynnon Haearn gyferbyn â'r Gilfan Lwytho yn ii) uchod.

v) Cadw'r parcio ar gyfer Deiliaid Bathodyn Anabl yn unig rhwng 11am a 6pm, 2 awr a dim dychwelyd o fewn 2 awr a gyflwynwyd dros dro ar ochr orllewinol y Ffynnon Haearn ger Cymdeithas Gofal ayb. ond addasu'r amser i fod rhwng 9am a 5pm, 2 awr a dim dychwelyd o fewn 2 awr.




*Ffigwr 12: Cilfan Lwytho wedi ei Chadw (iii), Gwahardd rhag aros ar unrhyw adeg (iv) a Chilfan Anabl (v)*


vi) Cadw’r rhan parcio ar gyfer Deiliaid Bathodyn Anabl yn unig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 9am a 5pm, 2 awr a dim dychwelyd o fewn 2 awr a gyflwynwyd dros dro ar ochr orllewinol Stryd y Popty (bydd y gilfan ar ochr ddwyreiniol Stryd y Popty yn dychwelyd i fod yn Gilfan Lwytho, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 8am a 1pm, 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr; Aros Cyfyngedig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 1pm a 6pm, 30 munud a dim dychwelyd o fewn 30 munud).




*Ffigwr 13: Y Gilfan Anabl wedi'i Chadw (vi)*

vii) Cadw'r parcio ar gyfer Deiliaid Bathodyn Anabl yn Unig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 8am a 5pm, 2 awr dim dychwelyd o fewn dwy awr ar ochr ogleddol y Porth Bach y tu allan i Downies Vaults, Fusion King ayb..


viii) Cadw'r gilfan i gerbydau nwyddau ar gyfer llwytho yn unig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn,  8am i 5pm, 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1awr a gyflwynwyd dros dro ar ochr ogleddol Stryd Portland wrth y gyffordd â Ffordd y Môr, y tu allan i fynedfa fach fferyllfa Boots.




*Ffigwr 14: Cilfan Lwytho Wedi'i Chadw (viii)*

ix) Cadw'r parcio ar gyfer deiliaid bathodyn anabl yn unig 9am i 5pm, 2 awr a dim

dychwelyd o fewn 2 awr a gyflwynwyd dros dro ar ochr orllewinol Maes Lowri ger eglwys San Mihangel, ond newid yr amser i 9am i 5pm, 2 awr a dim dychwelyd o fewn 2 awr.




*Ffigwr 15: Cilfan Anabl wedi'i Chadw (ix)*

x) Cadw'r Gilfan i Gerbydau Nwyddau ar gyfer Llwytho yn unig o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 8am a 5pm, 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr y tu allan i rifau 8 i 10 am 14.6 metr a gyflwynwyd dros dro ar ochr orllewinol Heol y Wig (ger Sports Direct)

xi) Cadw'r Gilfan i Gerbydau Nwyddau ar gyfer Llwytho yn unig o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 8am a 5pm, 1awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr a gyflwynwyd dros dro y tu allan i siop Cactws am 12 metr ar ochr ddwyreiniol Heol y Wig.


xii) Cadw'r Gilfan i Gerbydau Nwyddau ar gyfer Llwytho yn unig o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, rhwng 8 am a 5pm, 1 awr a dim dychwelyd o fewn 1 awr a gyflwynwyd dros dro ar ochr orllewinol Ffordd y Môr ger Stars.




*Ffigwr 16: Cilfan Llwytho wedi'i Chadw (xii)*

**Cynigir cynnwys y Gwaharddiadau Symud canlynol yn y Gorchmynion RheoleiddioTraffig Arbrofol:**

- i) Cadw'r llif traffig unffordd a gyflwynwyd dros dro ar Heol y Wig (o'r de i'r gogledd o'r Stryd Fawr i'r Promenâd Newydd/Glan-y-Môr).
- ii) Cyflwyno Gwaharddiad rhag Troi i'r Chwith o'r Porth Bach i Heol y Wig, er mwyn ategu'r system unffordd yn Heol y Wig.
- iii) Cyflwyno Gwaharddiad newydd rhag Troi i'r Dde o Stryd y Brenin i Heol y Wig.
- iv) Cadw'r llif traffig unffordd a gyflwynwyd dros dro ar Ffordd y Môr o lan y môr yng Nglan-y-Môr i'r cyffyrdd â Stryd Portland
- v) Cyflwyno Gwaharddiad newydd rhag Troi i'r Dde o fraich ddwyreiniol Stryd Portland i Ffordd y Môr.
- vi) Cyflwyno Gwaharddiad rhag Troi i'r Chwith o fraich orllewinol Stryd Portland i Ffordd y Môr.
- vii) Cyflwyno Gwaharddiad newydd rhag Troi i'r Dde o Ffordd Portland i Ffordd y Môr.
- viii) Cadw'r llif traffig unffordd a gyflwynwyd dros dro ar Stryd y Popty, o gyfeiriad y gyffordd â Stryd Portland tuag at y gyffordd â Rhodfa'r Gogledd/Y Stryd Fawr.
- ix) Cyflwyno Gwaharddiad newydd rhag Troi i'r Dde o Stryd y Baddon i Ffordd y Môr.
- x) Cadw'r llif traffig unffordd a gyflwynwyd dros dro ar Stryd y Baddon.
- xi) Cyflwyno gwaharddiadau rhag troi (i'r chwith ac i'r dde) o'r Morfa Mawr i Stryd Baddon.



*Figwr 17: Systemau Unffordd Arfaethedig yn Aberystwyth a Gwaharddiadau arfaethedig rhag troi.*

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.**
Naddo, bydd effaith y mesurau amrywiol y bwriedir eu cyflwyno yn cael ei hasesu yn ystod y cyfnod o 6 mis ar gyfer gwrthwynebiadau yn dilyn rhoi'r Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol ar waith. Ar y pwynt hwnnw, bydd AEI yn sail i unrhyw benderfyniad i wneud y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol yn rhai parhaol.

| | |
|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Crynodeb: Amherthnasol**<br>**Hirdymor: Amherthnasol**<br>**Integreiddio: Amherthnasol**<br>**Cydweithio: Amherthnasol**<br>**Cynnwys: Amherthnasol**<br>**Atal: Amherthnasol** |

**ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:**
Argymhellir bod y cynigion hyn ac unrhyw newidiadau, y tybir eu bod yn angenrheidiol, yn cael eu cymeradwyo i'w cyflwyno i'r Cabinet, er mwyn ceisio caniatâd i wneud y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol a chyhoeddi Hysbysiad i'r perwyl hwnnw yn y wasg leol a dirymu pob mesur arall sy'n gysylltiedig â Gorchmynion Traffig Dros Dro y Parthau Diogel.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:**
Er mwyn i'r buddion a ddaw yn sgil rhai elfennau o reoli'r traffig yn y trefi a enwir uchod fod yn destun ymchwiliad/ gael eu monitro, ac y rhoddir ystyriaeth i'w gwneud yn barhaol. Darparu rhwydwaith rheoli traffig sylfaenol i gynorthwyo yn y broses o ddatblygu cynigion ar gyfer y pedair tref yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Steve Hallows |
| **Swydd:** | Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu Priffyrdd |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 22/10/2021 |
| **Acronymau:** | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol